4 Rhentu Doeth Cymru

Dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae rhwymedigaethau cyfreithiol newydd ar landlordiaid sydd ag eiddo rhent yng Nghymru. Mae gwefan Rhentu Doeth Cymru www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/ yn esbonio'r rhwymedigaethau hyn a bydd yn eich helpu chi i ddeall y broses.

Cofrestru Landlordiaid Mae hi'n ofynnol i unrhyw landlord sydd ag eiddo rhent yng Nghymru a rentir ar denantiaeth sicr, tenantiaeth byrddaliad sicr neu denantiaeth reoleiddiedig, gofrestru. Pennir pwy sydd angen cofrestru eiddo yn seiliedig ar sut y caiff ei berchen. Caiff pob cofrestriad ei gwblhau gyda Rhentu Doeth Cymru ac yn para 5 mlynedd.

Trwyddedu Landlordiaid Nid oes angen trwydded ar landlordiaid nad ydynt yn rhan o'r gwaith o sefydlu tenantiaethau a rheoli eu heiddo rhent; fodd bynnag mae'n rhaid iddynt ddefnyddio asiant trwyddedig a chofrestru fel landlord gan ddatgan eu hasiant wrth gofrestru. Mae hi'n ofynnol i landlordiaid sy'n gosod eu heiddo rhent ac yn cyflawni tasgau rheoli mewn perthynas â nhw yng Nghymru, ymgymryd â hyfforddiant ac ymgeisio am drwydded. Yn aml, disgrifir landlordiaid o'r fath fel rhai sy'n 'hunan-reoli'. Gellir cwblhau hyfforddiant drwy Rhentu Doeth Cymru (cyrsiau ar-lein neu mewn ystafell ddosbarth) neu un o'i Ddarparwyr Hyfforddiant Cymeradwy Allanol, a gellir eu gwneud mewn ystafell ddosbarth neu ar-lein. Fel arfer mae hyfforddiant ar-lein yn rhatach na chwrs mewn ystafell ddosbarth. Mae'r drwydded landlord yn para 5 mlynedd.

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

Ffeithiau:
Dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae rhwymedigaethau cyfreithiol newydd ar landlordiaid sydd ag iddo rhent yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Rhentu Doeth Cymru ar

www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym